



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG46429

Dogfen Ymgynghori
Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad ar ddiwygio gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol

Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r gwasanaethau offthalmig a ddarperir mewn gofal sylfaenol yng Nghymru.

Dyddiad cyhoeddi: 24 Ebrill 2023

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Mehefin 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Trosolwg

Rydym eisiau clywed eich barn ynglŷn â chynigion i newid y modd y darperir gwasanaethau optometreg mewn gofal sylfaenol yng Nghymru. Bydd hyn yn arwain at ddull newydd ledled y system ar gyfer darparu gwasanaethau offthalmig gan GIG Cymru.

- **Sut i ymateb**

Llenwch yr holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon, gan ei anfon trwy e-bost neu'r post arferol i'r cyfeiriadau canlynol.

- **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

- **Manylion cyswllt**

Rhagor o wybodaeth:

Cyfeiriad e-bost: HSS-PrimaryCareMailbox@llyw.cymru

Cyfeiriad: Yr Is-adran Gofal Sylfaenol – Cangen Polisi Awdioleg ac Offthalmoleg, Llywodraeth Cymru, Llawr 4 Dwyrain Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriadau, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch, a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), gweler y manylion cyswllt isod.

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD

CF10 3NQ
Cyfeiriad e-bost:
SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow

Cheshire SK9 5AF
Rhif ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol yng Nghymru

Tabl Cynnwys

Trosolwg.....	2
Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)	3
Rhagair.....	6
Manylion yr Ymgynghoriad.....	7
Cyflwyniad.....	8
Y system bresennol.....	8
Y sail resymegol dros newid.....	9
Yr effaith arfaethedig a'r canlyniadau buddiol.....	10
Hyfforddiant a Chymwysterau	11
Polisi, fframwaith deddfwriaethol a rheoliadau.....	12
Y Broses Ddeddfwriaethol.....	13
Datblygu'r gofynion manwl	13
Archwiliad manylach o'r manteision a ddaw yn sgil y newidiadau arfaethedig	14
Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Asesiad Effaith Integredig	26
Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori.....	27
Ffurflen ar gyfer Ymateb i'r Ymgynghoriad.....	28

Rhagair

Yn ystod tymor yr Hydref 2019, dechreuodd Llywodraeth Cymru gynnal cyfres o gyfarfodydd a gweithdai gyda'r nod o gwmpasu dyfodol gwasanaethau gofal llygaid o safbwynt cleifion ar draws llwybrau gofal llygaid sylfaenol ac eilaidd yng Nghymru. Cynhaliwyd y cyfarfodydd a'r gweithdai hyn ar adeg amserol, gan ddechrau ar ddiwedd oes *Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid Law yn Llaw at Iechyd 2013-2020*, sef yr hwb yng Nghymru ar gyfer cymryd camau i wella gwasanaethau gofal iechyd llygaid. Hefyd, roedd y gwaith yn cydweddu â'r Rhaglen i Ddiwygio Contractau Gofal Sylfaenol.

Penderfynodd Llywodraeth Cymru ddwyn ynghyd randdeiliaid allweddol sy'n darparu gofal llygaid ledled Cymru i weithio ar y cyd fel y gellid cytuno at dull cenedlaethol – rhywbeth a arweiniodd at gyhoeddi'r ddogfen [Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol](#) ym mis Mawrth 2021. Mae'r ddogfen hon yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran darparu gwasanaethau gofal llygaid dros y degawd nesaf.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynrychioli'r cam nesaf o ran ymdrin ag amseroedd aros mewn ysbytai ac o ran gwella gofal iechyd llygaid yng Nghymru – sef rhywbeth sy'n dal i fod yn flaenoriaeth i'r llywodraeth. Y bwriad yw gwella'r modd y bydd ymarferwyr yn ymgysylltu â chleifion, ynghyd â gwella'r cymorth a'r gofal clinigol a roddant i unigolion mewn perthynas ag iechyd llygaid, yn cynnwys rhannu'r gofal rhwng gwasanaethau gofal llygaid sylfaenol ac eilaidd. Bydd hyn yn arwain at ddarparu gwasanaethau o ansawdd gwell ac, yn nes ymlaen, bydd yn arwain at ganlyniadau gwell i ddinasyddion. Ymhellach, bydd y dull hwn yn esgor ar fanteision cadarnhaol i weithwyr iechyd proffesiynol ac i GIG Cymru a bydd yn gwireddu'r uchelgais a bennir yn y ddogfen *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol*.

Un elfen yn unig yw'r newidiadau arfaethedig hyn yn y gwaith yr awn i'r afael ag ef i gryfhau trefniadau llywodraethu yn GIG Cymru, i wella mynediad at ofal iechyd llygaid ac i wella ansawdd gofal iechyd llygaid yn unol â [Cymru Iachach](#) ac ymrwymadau'r [Rhaglen Lywodraethu](#) sy'n ymwneud â darparu gwell mynediad at weithwyr iechyd proffesiynol.

Mae gennym seilwaith a gweithlu hollol gymwys a brwd mewn gofal sylfaenol, sy'n gweithio ar y cyd â gofal eilaidd er mwyn parhau i sicrhau bod gwasanaethau gofal llygaid Cymru yn dal i fod yn un o lwyddiannau datganoli. Rwy'n annog pawb sydd â buddiant mewn gofal iechyd llygaid yng Nghymru i ystyried y cynigion hyn yn ofalus ac i ymateb i'r ymgynghoriad hwn cyn gynted ag y bo modd.

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

MANYLION YR YMGYNGHORIAD

- **Beth yw pwnc yr ymgynghoriad hwn?**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn pennu manylion cynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r modd y darperir gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol yng Nghymru.

Mae a wnelo'r cynnig allweddol ag ymestyn y gwasanaethau gofal llygaid a ddarperir gan optometryddion ar y stryd fawr. Ar hyn o bryd, y gwasanaeth craidd a ddarperir gan optometryddion yw profion golwg y GIG, ac mae rhai optometryddion yn darparu gwasanaethau ychwanegol o dan drefniadau ar wahân. Cynigiwn ymestyn gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol er mwyn i optometryddion allu darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau o dan drefniadau safonol. Yn ogystal â phrofion golwg, bydd pob optometrydd gofal sylfaenol yn archwilio llygaid cleifion a chanddynt broblemau llygaid sydd angen sylw ar frys neu gleifion sy'n wynebu risg uwch o ddatblygu clefyd llygaid. Ymhellach, bydd profion golwg y GIG yn cynnwys cyngor yn ymwneud ag atal ac iechyd a llesiant, hunanofal, a datblygu cynllun rheoli unigol i gleifion.

Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys newid y telerau sy'n berthnasol i bractisau a fydd yn ymrwymo i drefniadau i ddarparu gwasanaethau offthalmig.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'n fanwl y newidiadau arfaethedig o ran sut bydd gwasanaethau offthalmig yn cael eu darparu yng Nghymru. Fodd bynnag, ni fydd angen diwygio pob agwedd ar y gyfraith yn y maes hwn er mwyn cyflawni hyn.

Lluniwyd y ddogfen ymgynghori hon gan Lywodraeth Cymru; dim ond i Gymru mae'n berthnasol.

- **Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?**

Ceisio barn y canlynol ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i'r modd y darperir gwasanaethau offthalmig yng Nghymru: byrddau iechyd; unigolion sy'n darparu, neu a allai wneud cais i ddarparu, gwasanaethau offthalmig y GIG; unigolion sy'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau offthalmig, neu a allai wneud cais i gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau o'r fath; cyrff proffesiynol â buddiant yng ngwasanaethau offthalmig y GIG; a rhanddeiliaid eraill, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn gyffredinol.

- **I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb pennaf?**

Bydd y newidiadau arfaethedig yn arbennig o berthnasol i ddefnyddwyr gwasanaethau; byrddau iechyd; unigolion sy'n darparu, neu a allai ddymuno gwneud cais i ddarparu, gwasanaethau offthalmig; unigolion sy'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau offthalmig, neu a allai ddymuno gwneud cais i gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau o'r fath; a chyrrff cynrychiadol. Gellir dod o hyd i'r cwestiynau ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar dudalen 28.

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio'r modd y darperir gwasanaethau offthalmig yng Nghymru ac mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein bwriad i wella mynediad at wasanaethau iechyd llygaid mewn gofal sylfaenol, gofal yn y gymuned a gwasanaethau llygaid mewn ysbytai.

Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, mae'r sector gofal llygaid yng Nghymru wedi esblygu'n fawr dros y blynyddoedd diwethaf, a'r bwriad yw y bydd modd i ymarferwyr ddefnyddio'u gallu proffesiynol llawn i ddarparu gofal llygaid ar lefel gofal sylfaenol. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen cyflwyno newidiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth a chyfarwyddiadau.

Ysgogiad allweddol dros newid yw'r angen i leihau'r pwysau ar wasanaethau llygaid mewn ysbytai trwy gynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir yn nes adref gan ymarferwyr gofal llygaid mewn gofal sylfaenol. Ein bwriad yw ymwreiddio atal a llesiant yn fwy fyth mewn gwasanaethau optometreg o bob math, gan helpu i wella canlyniadau i gleifion a lleihau'r galw am wasanaethau Practis Cyffredinol mewn gofal sylfaenol a gwasanaethau llygaid arbenigol mewn ysbytai.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r newidiadau arfaethedig i'r polisi a fydd yn cyflawni'r diwygiadau hyn. Bydd y newidiadau'n cael eu rhoi ar waith trwy gyfrwng deddfwriaeth a chyfarwyddiadau, a fydd yn cynnwys y canlynol:

- dirymu a chyflwyno newidiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986, a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio a Diwygiad Canlyniadol) (Cymru) 2006, a
- diwygio Rheoliadau'r Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997.

Cynigir hefyd y dylid dirymu a newid Cyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaeth Archwiliad Iechyd Llygaid (Cymru) 2016 a Chyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016 ynghyd â diweddarau eu llawlyfrau clinigol cysylltiedig fel rhan o'r diwygiadau hyn.

Y system bresennol

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol wneud trefniadau i ddarparu optometreg mewn gofal sylfaenol ddarparu profion golwg i bobl gymwys. Caiff diffygion yn y golwg eu cywiro trwy ddefnyddio teclyn optegol (sbectol neu lensys cyffwrdd).

Caiff 'profion golwg' eu cynnig i gleifion mewn gofal sylfaenol trwy gyfrwng trefniadau a wneir rhwng ymarferwyr a Byrddau Iechyd Lleol o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986. O dan y Rheoliadau hyn, mae'n ofynnol i ymarferwyr gael eu rhestru ar restr leol a gedwir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, ac mae'r Rheoliadau yn rheoleiddio telerau'r ymarferwyr mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Yn ychwanegol at ddarparu profion golwg, mae rhai darparwyr yn cynnig gwasanaethau gofal llygaid ychwanegol mewn gofal sylfaenol. Mae'r gwasanaethau

hyn yn cynnwys archwilio llygaid cleifion a chanddynt broblemau llygaid aciwt a chleifion sy'n wynebu risg uwch o ddatblygu clefyd llygaid, a darparu gwasanaethau i gynorthwyo cleifion sy'n colli eu golwg. Gwneir y trefniadau hyn o dan Gyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaeth Archwiliad Iechyd Llygaid (Cymru) 2016 a Chyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016, y sonnir amdanynt ar dudalennau 12 ac 13.

Caiff unrhyw arwydd o glefyd neu annormaledd y deuir o hyd iddo fel rhan o wasanaeth gofal llygaid gofal sylfaenol ei atgyfeirio at offthalmolegydd oddi mewn i wasanaethau llygaid mewn ysbytai. Wedi hynny, bydd y diagnosis, y gwaith rheoli, y driniaeth a'r gwaith monitro yn cael eu gwneud gan feddygon offthalmoleg oddi mewn i wasanaethau llygaid mewn ysbytai.

Gan fod nifer o gyflyrau llygaid yn araf a chronig, yn aml rhaid ymweld â gwasanaethau llygaid mewn ysbytai sawl gwaith cyn cael diagnosis, fel y gellir casglu gwybodaeth ddiagnostig a monitro newidiadau clinigol bach. Hefyd, ar ôl cael diagnosis a dechrau triniaeth, bydd cyfran fawr o gleifion angen apwyntiadau dilynol rheolaidd gyda gwasanaethau llygaid mewn ysbytai; ac i rai cleifion, gall hyn bara am weddill eu hoes.

Yn draddodiadol, mae gwasanaethau llygaid mewn ysbytai wedi datblygu trwy ddefnyddio model o dan arweiniad ymgynghorwyr. Ar ôl mynd ati i ddadansoddi'r modelau traddodiadol hyn, tynnwyd sylw at y ffaith bod ffyrdd mwy effeithlon o ddarparu gwasanaethau i'w cael, fel y nodir yn [External Review of Eye Care Services in Wales – Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr](#), lle dangosir bod y gallu i ddarparu gwasanaethau mewn ysbytai yn is o lawer na'r galw am wasanaethau gofal llygaid arbenigol.

Y sail resymegol dros newid

Disgwylir y bydd y galw am wasanaethau offthalmig yng Nghymru yn cynyddu'n fawr dros yr 20 mlynedd nesaf yn sgil carfan cleifion a fydd yn fwyfwy oedrannus a chynnydd yn y boblogaeth. Mae'r ffynhonnell ddata hon yn deillio o Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, Coleg yr Optometryddion a'r Trydydd Sector.

Yr ateb mwyaf ymarferol a chynaliadwy yw symud rhai gwasanaethau gofal llygaid o ysbytai i optometreg gofal sylfaenol, lle ceir gweithlu medrus â'r gallu i ddiwallu'r cynnydd mawr disgwylidig yn y galw. Caiff y gallu i ddarparu gwasanaethau mewn ysbytai ei gyfyngu fwyfwy gan nifer o ffactorau, yn cynnwys argaeledd gweithlu ac ystad – mae maint y rhestrau aros cyfredol yn arwydd o hyn, sef rhywbeth a waethygydd ymhellach yn sgil y pandemig. Mae'r adroddiad [Workforce Census 2018](#) gan Goleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr yn dangos bod yna brinder gweithwyr yn y maes offthalmoleg, ac mae hyn yn pwysleisio mwy fyth ar yr angen i newid.

Mae gwella gwasanaethau i bobl ag iechyd llygaid gwael ac i bobl sydd wedi colli eu golwg yn fater o'r pwys mwyaf, ac mae amcangyfrifon a nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru, sef *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol*, yn awgrymu y gallai colli golwg fod yn rhywbeth y gellid bod wedi'i osgoi yn hanner yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt. Felly, mae hi'n hanfodol inni ymestyn y ddarpariaeth mewn gofal sylfaenol, lle ceir gweithlu medrus eisoes a all gefnogi

gwasanaethau llygaid mewn ysbytai. Mae gan optometryddion ran hollbwysig yn y dasg o drawsnewid gwasanaethau gofal llygaid, ac maent yn meddu ar y sgiliau i gynnal 'profion golwg' ac 'archwiliadau iechyd llygaid' mewn gofal sylfaenol.

Mae diwygio'r system bresennol trwy ddiwygio a disodli'r ddeddfwriaeth gyfredol yn hanfodol er mwyn gwella mynediad cleifion at wasanaethau iechyd llygaid, gan sicrhau bod cymorth yn cael ei roi gan y gweithiwr proffesiynol iawn, yn y lle iawn ar draws y llwybr gofal llygaid mewn optometreg gofal sylfaenol a gwasanaethau gofal llygaid arbenigol mewn ysbytai.

Yr effaith arfaethedig a'r canlyniadau buddiol

Bydd y newidiadau arfaethedig yn golygu y gellir darparu gwasanaethau gofal iechyd llygaid mewn gofal sylfaenol. Wrth symud ymlaen, cynigir y dylai diagnosis, triniaeth, rheolaeth barhaus, rhannu gofal a chyngor ynglŷn ag atal ac iechyd a llesiant fod yn rhan o'r ddarpariaeth. Bydd y dull hwn yn cydweddu Optometreg â Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Deintyddiaeth a Fferylliaeth GIG Cymru o ran y cyngor ehangach a roddir mewn gofal sylfaenol ynglŷn ag atal, iechyd a llesiant.

Mae ymarferwyr yn meddu ar y gallu a'r set sgiliau i wneud diagnosis, trin a rheoli rhagor o gleifion mewn gofal sylfaenol, gan ddarparu gofal yn nes adref a chan wella mynediad cleifion at wasanaethau gofal llygaid arbenigol mewn modd amserol. Y bwriad wrth wraidd y dull hwn yw lleihau'r galw am farn ac ymyrraeth o dan arweiniad ysbytai, gan leihau'r oedi a'r ôl-groniad apwyntiadau ar gyfer gwasanaethau llygaid mewn ysbytai. Hefyd, bwriedir iddo leihau'r galw ar feddygon teulu. Trwy gyfrwng trafodaethau parhaus gydag Optometreg Cymru – sef y sefydliad ambarél proffesiynol ar gyfer y proffesiwn iechyd llygaid mewn gofal sylfaenol yng Nghymru, sy'n cynrychioli optometryddion cymunedol, optegwyr ac optegwyr cyflenwi, ac sy'n gweithio ar eu rhan – gwyddom fod y gweithlu optometreg mewn gofal sylfaenol yn barod, yn fodlon ac yn alluog i gynorthwyo GIG Cymru i wella profiadau a chanlyniadau i gleifion.

Trwy roi'r dull hwn ar waith, bydd modd esgor ar lwybrau newydd ar gyfer gofal llygaid. Y nod yw lleihau'r nifer o bobl a gaiff eu hatgyfeirio at wasanaethau llygaid mewn ysbytai – sef oddeutu traean o leihad – a'i gwneud yn bosibl i fonitro a rheoli cleifion risg isel a risg ganolig oddi mewn i ofal sylfaenol; bydd gwasanaethau llygaid mewn ysbytai yn parhau i gynig goruchwyliaeth arbenigol. Mae'r llwybr hwn yn ei gyfanrwydd yn addas iawn ar gyfer gofal llygaid lle gellir ailddosbarthu'r galw gyda gweithlu sydd wedi uwchsgilio mewn gofal sylfaenol.

Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn ymestyn cwmpas yr hyn mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ei drefnu yn eu hardaloedd wrth wneud trefniadau ar gyfer profion golwg y GIG (trefniadau a elwir yn "wasanaethau offthalmig cyffredinol" yn y ddeddfwriaeth). Ymhellach, bydd yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol drefnu i ddarparu cyngor yn ymwneud ag iechyd llygaid ac archwiliadau llygaid (yn ogystal â chyngor perthnasol arall yn ymwneud ag iechyd). Yn y ddogfen hon, gelwir y gwasanaethau hyn gyda'i gilydd yn "wasanaethau craidd". Yn achos ymarferwyr a fydd yn ymrwymo i drefniadau gyda Byrddau Iechyd Lleol gogyfer darparu gwasanaethau offthalmig y GIG yng Nghymru (a elwir yn "gontractwyr" yn y ddogfen hon), bydd yn ofynnol iddynt ddarparu ystod lawn o'r gwasanaethau craidd hynny.

Y bwriad yw y bydd hyn yn cyflymu'r modd y darperir gofal iechyd llygaid i weithwyr iechyd proffesiynol a dinasyddion ledled Cymru. Bwriedir esgor ar yr enillion canlynol i ddinasyddion:

- Gwella mynediad amserol i unigolion sydd angen gwasanaethau llygaid arbenigol mewn ysbytai oddi mewn i ofal eilaidd, ynghyd â lleihau'r amseroedd aros.
- Gwella mynediad amserol at 'brofion golwg', archwiliadau iechyd llygaid cyfannol a thriniaeth a rheolaeth iechyd llygaid mewn gofal sylfaenol.
- Bydd cleifion yn cael mynediad at well gwasanaethau gofal llygaid mewn practisau optometrig gofal sylfaenol yn nes at eu cartrefi.
- Dim ond cleifion sydd angen gwasanaethau llygaid arbenigol a fydd yn cael eu gweld mewn ysbytai.
- Gwella mynediad amserol i gleifion â phatholeg llygaid a allai beri iddynt golli eu golwg yn barhaol, gan y byddai'r galw am wasanaethau llygaid mewn ysbytai wedi lleihau.

Rhaid sicrhau bod cleifion wrth galon a chraidd yr holl wasanaethau a ddarperir, ni waeth be fo'r lleoliad. Yn achos gwasanaethau gofal llygaid o bob math, pa un a fyddant yn cael eu cynnig mewn ysbytai neu mewn practisau optometrig, dylid rhoi pwyslais ar ganfod cyflyrau iechyd llygaid ynghynt er mwyn helpu i leihau'r nifer o bobl a fydd yn colli eu golwg.

Hyfforddiant a Chymwysterau

Yng Nghymru, mae datblygiad proffesiynol ein gweithlu optometreg gofal sylfaenol yn sicrhau bod gweithlu â sgiliau priodol ar gael i ddarparu'r manteision y gobeithir eu gwireddu yn sgil diwygio gwasanaethau, yn cynnwys darparu archwiliadau iechyd llygaid.

Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae mwy a mwy o ymarferwyr wedi ennill cymwysterau ôl-raddedig ychwanegol mewn retina meddygol, glawcoma a rhagnodi annibynnol – cynnydd mawr o ran symud tuag at fodel clinigol newydd ar gyfer gofal iechyd llygaid yng Nghymru.

Mae uwchsgilio ymarferwyr er mwyn iddynt allu gweithio hyd eithaf eu trwydded yn golygu bod optometreg mewn sefyllfa ddelfrydol i drawsnewid llwybrau gofal llygaid ymhellach ynghyd â chyflawni egwyddorion '*Cymru Iachach*' a bodloni ymrwymadau'r *Rhaglen Lywodraethu a'r Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yng Nghymru yn y dyfodol* (y cytunir arno'n genedlaethol), sy'n nodi'n glir pa mor bwysig yw datblygiad proffesiynol i'r sector. Ategir hyn gan ddatblygiad adran optometreg yng nghynllun [Addysg a Gwella Iechyd Cymru \(AaGIC\)](#), sy'n cynorthwyo optometryddion a gweithwyr proffesiynol eraill yn y maes gofal llygaid trwy raglen addysg a gwella sgiliau o'r radd flaenaf sy'n cydweddu â datblygiad proffesiynol parhaus, ymarfer myfyriol a mentora. Mae AaGIC yn arwain y ffordd o ran gwella ansawdd a datblygu arweinyddiaeth ar gyfer gweithwyr optometreg proffesiynol.

O dan y model newydd, bydd y safon ymarfer sylfaenol yng Nghymru yn cyfateb i lefel achredu bresennol Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW) – mae oddeutu 95% o ymarferwyr yn meddu ar yr achrediad hwn ar hyn o bryd.

Bydd gwasanaethau gofal llygaid arbenigol mewn gofal sylfaenol yn cael eu trefnu ar lefel y clwstwr a bydd o leiaf ddau optometrydd â chymwysterau uwch i'w cael ym mhob clwstwr yn syth. Bydd dull cynyddol yn cael ei roi ar waith gogyfer cynyddu gwasanaethau a bydd cynllun gweithlu'n cael ei lunio er mwyn cynyddu'r niferoedd trwy AaGIC.

Polisi, fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddio

Yn achos y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau craidd y bydd yn ofynnol i gontractwyr (a Byrddau Iechyd Lleol) eu darparu, byddant yn cael eu rhoi mewn grym trwy gyfrwng rheoliadau a wneir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006").

Caiff y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwasanaethau offthalmig yng Nghymru ei gosod yn bennaf yn Rhan 6 (adrannau 71 i 79) o Ddeddf 2006.

Ar hyn o bryd, ceir dwy brif set o reoliadau yn y maes hwn. Fe'u disgrifir isod:

- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986 ("Rheoliadau 1986") – dyma'r prif reoliadau, ac maent yn darparu trefniadau ar gyfer profion golwg o dan y GIG. Mae Rheoliadau 1986 yn ymdrin â chymwysterau ymarferwyr meddygol offthalmig, y rhestr o'r rhai sy'n darparu gwasanaethau a'r ffioedd sy'n daladwy am y gwasanaethau, y telerau sy'n berthnasol i ddarparu gwasanaethau, taliadau i ymarferwyr a'r darpariaethau ar gyfer profion golwg.
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("Rheoliadau 1997") – mae'r rhain yn cynnig cynllun ar gyfer taliadau a wneir trwy gyfrwng system dalebau mewn perthynas â'r costau a ysgwyddir gan gategoriâu arbennig o unigolion mewn cysylltiad â phrofion golwg, ynghyd â chyflenwi, adnewyddu a thrwsio teclynnau optegol (sbectolau a lensys cyffwrdd).

Yn ychwanegol at y ddwy brif set o reoliadau, mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio a Diwygiad Canlyniadol) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006") yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol gadw rhestr atodol o'r rhai sy'n cynorthwyo i ddarparu profion golwg y GIG.

Mae dwy set o Gyfarwyddiadau, a elwir yn Gyfarwyddiadau Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru, hefyd yn ymwneud ag optometreg, sef:

- Cyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaeth Archwiliad Iechyd Llygaid (Cymru) 2016 ("Cyfarwyddiadau EHES"): [the-eye-health-examination-service-committee-wales-directions-2016-2016-no-10.pdf \(gov.wales\)](https://gov.wales/sites/default/files/2016-10/the-eye-health-examination-service-committee-wales-directions-2016-2016-no-10.pdf);

- Cyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016 (“Cyfarwyddiadau LVSW”): [the-low-vision-service-committee-wales-directions-2016-2016-no-11.pdf \(gov.wales\)](https://gov.wales/sites/default/files/2016-2016-no-11.pdf).

Mae Cyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaeth Archwiliad Iechyd Llygaid (Cymru) 2016 yn sefydlu'r gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW), sy'n hwyluso'r modd y darperir archwiliadau llygaid mewn gofal sylfaenol i gleifion â phroblemau llygaid aciwt, y rhai y byddai colli eu golwg yn arwain at anhawster mawr iddynt a'r rhai sy'n wynebu risg uwch o ddatblygu cyflyrau a allai roi eu golwg yn y fantol.

Mae Cyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaeth Golwg Gwan (Cymru) 2016 yn sefydlu Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru (LVSW), sy'n galluogi optometryddion, ymarferwyr meddygol offthalmig ac optegwyr cyflenwi i asesu cleifion a phenderfynu a oes unrhyw gymhorthion golwg gwan ar gael i'w helpu gyda'r nam sydd ganddynt ar eu golwg neu gyda'r ffaith eu bod yn colli eu golwg, er mwyn iddynt allu byw mor annibynnol ag y bo modd a chyrraedd eu llawn botensial o ran addysg, o ran gwaith ac yn gymdeithasol.

Bydd y diwygiadau'n golygu y bydd yn rhaid dirymu, newid a chydgrynhoi Rheoliadau 1986 a Rheoliadau 2006, gan greu un brif set o reoliadau a elwir dros dro yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023. Bydd y Rheoliadau hyn yn ymestyn y mathau o wasanaethau gofal llygaid a ddarperir mewn gofal sylfaenol (ymhelaethir ar y gwasanaethau hyn yn yr adran Model Gwasanaeth / Gwasanaethau Estynedig isod), a byddant yn ymgorffori'r ddarpariaeth bresennol sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gytuno ar ffioedd ar gyfer profion golwg mewn dogfen a elwir yn “Ddatganiad o Daliadau Gwasanaethau Offthalmig”.

Ochr yn ochr â hyn, bydd Rheoliadau 1997 yn cael eu diwygio fel y gellir rhagnodi gwerthoedd newydd y talebau optegol i gleifion cymwys ar draws ystodau presgripsiwn trwy gyfrwng y rheoliadau a adwaenir dros dro yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2023.

Y Broses Ddeddfwriaethol

Bydd y rheoliadau'n cael eu gwneud o dan weithdrefn negyddol y Senedd ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth (yn unol ag adran 203(4) o Ddeddf 2006).

Datblygu'r gofynion manwl

Fel y nodir yn y rhagair i'r ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda rhanddeiliaid ar y diwygiadau arfaethedig i wasanaethau offthalmig, ac wrth wneud hynny mae wedi ystyried y modd y darperir gwasanaethau ar hyn o bryd, ynghyd â mynediad at wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau. Ers hynny, aethpwyd ati i sefydlu Bwrdd Gweithredu Optometreg ac is-grwpiau cysylltiedig er mwyn datblygu ymhellach y cynigion ar gyfer y gofynion manwl. Mae'r Bwrdd a'i is-grwpiau perthynol wedi cyfarfod yn rheolaidd ers iddynt gael eu sefydlu ac mae'r aelodau'n cynnwys Byrddau Iechyd Lleol GIG Cymru, Cynghorau Iechyd Cymuned, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, arweinwyr Gofal Sylfaenol (Optometreg) a staff Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd wedi cyfrannu'n fawr at ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru ar ddiwygio gwasanaethau offthalmig.

Archwiliad manylach o'r manteision a ddaw yn sgil y newidiadau arfaethedig

Mae'r adran hon yn cyfeirio at y datblygiadau allweddol a fydd yn deillio'n uniongyrchol o'r newidiadau arfaethedig a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon. Byddem yn croesawu eich syniadau a byddem yn eich annog i ymateb i'r cwestiynau isod trwy lenwi'r ffurflen ymateb ar dudalen 28.

• Model Gwasanaeth / Gwasanaethau Estynedig

Mae'r model gwasanaeth newydd arfaethedig yn cydweddu â *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol*, a chaiff atal a llesiant eu hymwreiddio drwyddo draw. Mae'r llwybrau gofal llygaid newydd a gaiff eu creu ac a gaiff eu darparu mewn gofal sylfaenol gan ddarparwyr optometreg fel rhan o'r newidiadau arfaethedig fel a ganlyn:

• Gofal iechyd llygaid cyfannol

- Gwasanaeth Lefel 1 – ar hyn o bryd, mae contractwyr optometreg yn rhoi profion golwg i'r rhai sy'n gymwys i'w cael. Mae'r trefniant arfaethedig newydd yn ychwanegu elfennau hollbwysig sy'n mynd y tu hwnt i'r profion golwg presennol, gan ymestyn y gwasanaeth er mwyn darparu gofal iechyd llygaid cyfannol a fydd yn cynnwys cyngor ynglŷn ag atal ac iechyd a llesiant, hunanofal, a datblygu cynllun rheoli unigol i gleifion. Bydd hyn yn cydweddu Optometreg â Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Deintyddiaeth a Fferylliaeth GIG Cymru o ran y cyngor ehangach a gynigir gan ofal sylfaenol ynglŷn ag atal, iechyd a llesiant, megis rhoi'r gorau i smygu, pwysedd gwaed, trafod ffyrdd o fyw (Gordewdra, Alcohol), unigrwydd a theimladau ynysig, baglu a syrthio, ac amddiffyn rhag uwchfioled.

• Achrediad Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW) Gorfodol

- Gwasanaeth Lefel 2 – Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru sy'n darparu gofal llygaid arbenigol i gleifion â phroblemau llygaid sydd angen sylw ar frys neu sy'n wyneb risg uwch o ddatblygu clefyd llygaid. Ar hyn o bryd, darperir y gwasanaeth hwn gan Fyrddau Iechyd Lleol yn unol â Chyfarwyddiadau a Llawlyfrau Clinigol yn ymwneud â gwasanaethau EHEW. Gall y rhan fwyaf o ymarferwyr gofal llygaid hyfforddedig (optometryddion) ledled Cymru ddarparu'r gwasanaeth rhad ac am ddim hwn gan y GIG yn y gymuned. Wrth symud ymlaen, yn awr bydd yn ofynnol i bob contractwr ddangos ei fod yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn ledled Cymru, gan gynyddu'r safonau sylfaenol mewn darpariaethau gofal iechyd llygaid.

Er mwyn gallu darparu gwasanaethau gofal llygaid a sicrhau mynediad teg at wasanaethau o'r fath, o dan y telerau gwasanaeth newydd bydd yn rhaid i gontractwyr ddangos eu bod yn gallu darparu'r ddau wasanaeth gofal llygaid craidd a nodir uchod.

Bydd yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ddarparu'r gwasanaethau hyn o dan y cynigion. Bydd Rheoliadau arfaethedig Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023 yn pennu pa wasanaethau y bydd yn rhaid eu darparu, ynghyd â thelerau'r trefniadau.

Cwestiwn 01: A ydych yn cytuno y dylai practisau optometrigrif orfod ymgorffori cyngor sy'n ymwneud ag atal a llesiant, yn ogystal â chynlluniau rheoli unigol i

gleifion a chynghor ynglŷn â hunanofal, fel rhan o'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnis wrth ddarparu profion golwg y GIG?

Cwestiwn 02: A ydych yn cytuno y dylai pob practis optometrigr yng Nghymru gynnis archwiliad iechyd llygaid i gleifion sydd angen sylw ar frys neu i gleifion sy'n wynebu risg uwch o ddatblygu clefyd llygaid?

- **Cymwysterau a hyfforddiant parhaus**

- Cynigir y bydd y broses o ymestyn gwasanaethau yn cael ei hategu gan ofynion am gymwysterau ac addysg bellach a safonau hyfforddi, lle bydd yn ofynnol i bob ymarferydd sy'n ymarfer yng Nghymru gael achrediad hyd at safon bresennol EHEW (mae oddeutu 95% o ymarferwyr yn gymwysedig ar hyn o bryd).

Hefyd, bydd yn ofynnol i ymarferwyr gydymffurfio â gofynion hyfforddi parhaus. Bydd angen iddynt gwblhau hyfforddiant yn flynyddol er mwyn cynnal a diweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth broffesiynol.

Cwestiwn 03: A ydych yn cytuno y dylai'r holl ymarferwyr sy'n ymarfer yng Nghymru feddu ar achrediad a hyfforddiant sylfaenol er mwyn iddynt allu darparu ystod lawn o wasanaethau craidd, yn cynnwys archwiliadau llygaid?

- **Newidiadau i Lawlyfrau Clinigol a Gwasanaethau Clinigol dan Gyfarwyddyd Cenedlaethol**

- O dan y trefniadau newydd, bydd yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau clinigol ar lefel uwch o fewn eu ffiniau ar lefel gofal sylfaenol – ymhelaethir ar hyn ar dudalennau 16 ac 17 wrth drafod gwasanaethau lefel 3 i 5. Ni fydd yn ofynnol i bob practis offthalmig ddarparu'r gwasanaethau clinigol uwch hyn, ond bydd yn rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol ddarparu'r gwasanaethau hyn ar lefel clwstwr/ardal leol ar gyfer cleifion yn eu priod ardaloedd. Un o ymrwymadau'r *Rhaglen Lywodraethu* yw diwygio gofal sylfaenol, gan ddwyn ynghyd wasanaethau meddygon teulu, gwasanaethau fferyllol, optometreg, awdioleg, therapi, nyrsio cymunedol, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, gwasanaethau cymunedol a'r trydydd sector. Clystyrau yw'r dull o gyflawni hyn. Mae *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol* (Mawrth 2021) yn pennu rôl clystyrau, sy'n cynnwys ymestyn gwasanaethau iechyd llygaid a llesiant mewn gofal sylfaenol. Mae hyn yn ategu'r syniad y dylai cymunedau lleol allu cael gafael ar wasanaethau pan fônt eu hangen, heb orfod disgwyl am gael eu hatgyfeirio at ofal eilaidd.

Ni fydd y gwasanaethau clinigol 'lefel uwch' hyn yn cael eu darparu trwy gyfrwng y trefniadau a bennir yn y rheoliadau. Bydd yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol wneud y trefniadau hyn o dan gyfarwyddiadau ychwanegol a bydd y manylion yn cael eu pennu mewn llawlyfrau clinigol cysylltiedig. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau llwybrau di-dor i gleifion rhwng gwasanaethau, cynigiwn y bydd y rheoliadau newydd yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar bractisau a gomisiynir gan y GIG – hynny yw, practisau sydd ond yn darparu gwasanaethau craidd ar lefelau 1 a 2 – i atgyfeirio ymlaen y cleifion hynny sydd angen ymyrraeth glinigol uwch. Felly, bydd practisau'n cael eu cymell gan y gyfraith i gyfeirio cleifion at bractis addas gerllaw sy'n cynnis y cymorth clinigol angenrheidiol. Nod y

ddarpariaeth hon yw sicrhau mynediad teg i bob claf mewn perthynas â'i anghenion gofal llygaid trwy ei gyfeirio at bractis priodol.

Bydd y llwybrau canlynol ar gael ar lefel gofal sylfaenol yn ardal pob Bwrdd Iechyd Lleol. Yn yr un modd, bydd modd i bob ymarferydd a phob practis ddewis 'optio i mewn' i ddarparu'r gwasanaethau hyn, ar yr amod eu bod yn meddu ar y cymwysterau angenrheidiol:

- Gwasanaeth Lefel 3 – Mae'r lefel hon yn cydweddu â Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru a bydd yn parhau i gael ei darparu gan optometryddion, ymarferwyr meddygol offthalmig ac optegwyr cyflenwi achrededig a hyfforddedig. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth trwy ddarparu cymhorthion golwg gwan, trwy gyfeirio cleifion at wasanaethau eraill a thrwy gynnig gwybodaeth am gyflyrau iechyd a sut i fyw o ddydd i ddydd. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei agor i bob ymarferydd sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaethau golwg gwan. Mae cynnwys Optometryddion Gofal Sylfaenol (a chanddynt achrediad dwbl mewn perthynas ag Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru a Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru) yn y broses o Ardystio Nam ar y Golwg ar gyfer cleifion sy'n byw yng Nghymru, yn ychwanegol at y broses a ddarperir ar hyn o bryd mewn gofal eilaidd ar ffurf Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbytai, yn elfen ychwanegol arall sy'n perthyn i wasanaethau gofal sylfaenol ar y lefel hon. Mae ardystiad yn rhaganghenraid i gofrestrriad nam ar y golwg. Yng Nghymru, disodlwyd adran 29(4)(g) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 gan adran 18 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu a chynnal cofrestr o bobl sy'n preswyllo'n arferol yn ardal yr awdurdod lleol ac sydd â nam ar eu golwg neu nam difrifol ar eu golwg, nam ar eu clyw neu nam difrifol ar eu clyw, neu nam ar eu golwg a'u clyw a allai, gyda'i gilydd, gael effaith fawr ar eu bywydau o ddydd i ddydd.

Mae cofrestrriad yn sicrhau mynediad at wasanaethau a chymorth sy'n anelu at gynnal annibyniaeth yr unigolyn, yn cynnwys yr hyn a gynigir gan Swyddogion Sefydlu Sgiliau a Swyddogion Adsefydlu ar gyfer pobl â nam ar eu golwg.

Mae gormod o bobl yn aros am fisoedd lawer i gael mynediad at Wasanaethau Llygaid mewn Ysbytai er mwyn cael Ardystio Nam ar y Golwg, ac mae rhai yn methu â chael budd-daliadau a chymorth tra maent yn aros. Ymhellach, mae'r bobl hyn yn defnyddio apwyntiadau y gellid eu defnyddio ar gyfer pobl sydd angen sylw offthalmolegol arbenigol.

- Gwasanaeth Lefel 4 – Yn achos cleision a fyddai, yn y gorffennol, wedi cael eu hatgyfeirio o wasanaethau optometreg gofal sylfaenol at Wasanaethau Llygaid mewn Ysbytai ar gyfer cynnal asesiadau glawcoma a retina meddygol, byddant yn cael eu hatgyfeirio at optometrydd sy'n meddu ar gymwysterau uwch er mwyn cael asesiad pellach, oddi mewn i'r ardal clwstwr gofal sylfaenol. Bydd hyn yn cyflymu ac yn gwella mynediad i gleifion, a bydd cleifion yn cael eu profion diagnostig mewn gofal sylfaenol. Y bwriad yw cynyddu gallu Gwasanaethau

Llygaid mewn Ysbytai fel y bydd modd gweld cleifion sy'n wynebu risg uwch o golli eu golwg o fewn y dyddiadau targed a bennwyd yn glinigol ar eu cyfer.

- Gwasanaeth Lefel 5 – Mae a wnelo'r datblygiad hwn â darparu "Unedau Argyfwng Llygaid" mewn gofal sylfaenol, gyda'r disgwyliad y bydd mwy o achosion yn cael eu rheoli a'u trin o dan y drefn hon, heb fod angen eu hatgyfeirio ymlaen. Unwaith eto, bydd y gallu i ganfod problemau a rhagnodi'n briodol ar gyfer cleifion oddi mewn i'r gymuned yn lleihau'r galw am ddarparu'r gwasanaethau hyn oddi mewn i Wasanaethau Llygaid mewn Ysbytai a gwasanaethau meddygon teulu.

Cwestiwn 04: A ydych yn cytuno â'r gofyniad i gael y gwasanaethau arfaethedig hyn sydd dan gyfarwyddyd cenedlaethol oddi mewn i ofal sylfaenol, er mwyn sicrhau mynediad cyson at wasanaethau gofal llygaid ledled Cymru?

Cwestiwn 05: A ydych yn cytuno y dylai practis nad yw'n cynnig gwasanaethau clinigol lefel uwch gael ei gymell gan y gyfraith i atgyfeirio cleifion at bractis gerllaw sy'n cynnig y gwasanaethau clinigol angenrheidiol, er mwyn diwallu anghenion cleifion?

Gweithio mewn Clwstwr

Mae'r [Model Gofal Sylfaenol i Gymru](#), sy'n ategu gweledigaeth [Cymru Iachach](#), yn cynnwys [13 o elfennau allweddol](#) sy'n ofynnol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys cydweithio effeithiol ar lefel y gymuned er mwyn asesu anghenion y boblogaeth, fel y gellir cynllunio a darparu gofal a chymorth di-dor i ddiwallu'r anghenion hynny.

Y gweithlu lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion a phrofiad cymunedau lleol, ac i lywio a dylanwadu ar gynlluniau gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Sefydlwyd clystyrau yn 2010 er mwyn casglu'r wybodaeth honno ac annog yr arfer o roi cynnig ar fodolau gofal newydd, fel y gellid diwallu anghenion lleol mewn ffordd fwy effeithiol. Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, ceir amrywio o glwstwr i glwstwr o ran pa mor ddatblygedig yw'r cydweithio ac o ran pa effaith a geir ar gleifion a chymunedau.

Ar gyfer 2021-23, mae'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol wedi cyflwyno Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam er mwyn sicrhau y rhoddir y Model Gofal Sylfaenol i Gymru ar waith yn gyflymach ac yr ymdrinnir â rhwystrau yn y system.

Mae'r Rhaglen yn cynnwys cyflwyno [Cydweithrediadau Proffesiynol](#) a [Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr](#) er mwyn ehangu a chryfhau ymgysylltu clinigol a chynyddu dylanwad y gymuned ar benderfyniadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol). Bydd dull cliriach o wahanu swyddogaethau cynllunio a swyddogaethau darparu yn cael ei ddatblygu.

Ni chaiff y maes optometreg mewn clystyrau gofal sylfaenol ei gynrychioli mewn modd cyson ledled Cymru. Mewn rhai ardaloedd, mae Byrddau Iechyd Lleol yn

ariannu presenoldeb optometryddion yng nghyfarfodydd y clwstwr, ac yn hyrwyddo integreiddio. Fodd bynnag, mewn ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol nad ydynt yn ariannu presenoldeb optometryddion, mae Pwyllgorau Optometrig Rhanbarthol yn ceisio defnyddio gwirfoddolwyr, gan ddibynnu ar ewyllys da aelodau'r pwyllgor i fynychu. Mae'r anghysondeb hwn yn arwain at ddiffyg eglurder ymhlith yr ymarferydd sy'n mynychu, y Pwyllgor Optometrig Rhanbarthol a'r Bwrdd Iechyd Lleol mewn perthynas â'r modd mae'r rôl yn cyfrannu at glystyrau.

Yn y dyfodol, ein bwriad yw ffurfioli'r modd y bydd practisau optometrig yn ymgysylltu â'i gilydd fel cydweithrediadau optometreg a'r modd y byddant yn ymgysylltu â chlystyrau gofal sylfaenol ehangach, trwy ddatblygu arweinwyr cydweithrediadau optometreg.

Er mwyn sicrhau cysondeb o ran ymgysylltu ledled Cymru, bwriadwn sefydlu Cydweithrediadau Optometreg Clwstwr. Bydd gan yr holl bractisau optometrig o fewn y clwstwr ddyletswydd i ymgysylltu trwy gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cydweithrediadau Proffesiynol Optometreg (hyd at 4 cyfarfod bob blwyddyn), a bydd y practisau'n cael ad-daliad am wneud hynny.

Cwestiwn 06: A ydych yn cytuno y dylid rhoi dyletswydd ar bractisau optometrig i gydweithredu er mwyn sicrhau y gellir ymdrin ag anghenion iechyd llygaid ardal y clwstwr oddi mewn i glystyrau gofal sylfaenol?

• Asesu Anghenion Iechyd Llygaid

Mae'r RNIB yn amcangyfrif y bydd bron i 1 o bob 5 o bobl yn colli eu golwg yn barhaol yn ystod eu hoes, gydag 1 o bob 3 yn colli eu golwg i ryw raddau yn ystod eu hoes. Yn 2016-17, digwyddodd 90% o achosion lle collodd pobl eu golwg ymhlith pobl 65 oed a hŷn. Fodd bynnag, yn yr un flwyddyn, fe effeithiodd achosion o golli golwg ar 25 o bobl rhwng 15-64 oed bob diwrnod. Amcangyfrifir bod 2 filiwn o bobl yn y DU yn byw gyda cholli golwg a bod y cyflwr yn effeithio ar eu bywydau beunyddiol. (RNIB 2016).

Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 3.5% o'r boblogaeth yn byw gyda cholli golwg a bod y cyflwr yn effeithio ar eu bywydau beunyddiol. Amcangyfrifir bod 111,000 o bobl yng Nghymru o'r farn eu bod yn byw gyda cholli golwg a disgwylir i'r ffigur hwn godi 35% i 146,000 erbyn 2030 (RNIB 2021, Pezzullo et al 2018). Mae colli golwg yn gallu effeithio'n fawr ar lesiant unigolion. Mae yna berthynas agos rhwng colli golwg ar y naill law ac iechyd cyffredinol ar y llaw arall, ac mae'n bwysig ymdrin â'r berthynas hon a cheisio canfod ffyrdd o'i gwella.

Bydd clystyrau gofal sylfaenol yn gwella cynlluniau integredig rhwng clystyrau, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, ac yn sicrhau y bydd amrywiaeth ehangach o wasanaethau ar gael yn lleol, gan ei gwneud yn bosibl i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cydweithio yn y clwstwr seilio'r cynlluniau ar y boblogaeth leol. Mae optometryddion yn rhan o'r cydweithio hwn o fewn y clwstwr, gan sicrhau bod anghenion y boblogaeth leol yn cael eu diwallu a bod y cynigion a amlinellir uchod yn ceisio rhoi mwy o sail ffurfiol eto i'r cydweithio hwnnw. Mae asesiadau o anghenion y boblogaeth leol yn hanfodol o ran cyflwyno newidiadau a fydd o wir fantais i'r

gymuned leol (Hwb Datblygu ac Arloesi Gofal Sylfaenol a Chymunedol, 2022) oherwydd gellir eu defnyddio i helpu i gynllunio gwasanaethau ar lefel clwstwr lleol.

Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw ddogfen sy'n disgrifio anghenion ieuchyd llygaid yng Nghymru ac sy'n ymdrin ag ardaloedd rhanbarthol. Os ydym am wella gofal llygaid yng Nghymru, ynghyd â gwella'r canlyniadau i gleifion â chyflyrau llygaid yng Nghymru, mae hi'n hanfodol inni gael Asesiad Cymru Gyfan o Anghenion Iechyd Llygaid. Trwy ddisgrifio'n fanwl beth yw cyflwr ieuchyd llygaid o ranbarth i ranbarth, bydd modd inni gynllunio ar gyfer gallu a gwasanaethau yn awr, ynghyd â chynllunio ar gyfer cynnydd disgwylidig yn y galw am y gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

Er mwyn inni allu cefnogi mwy fyth ar anghenion gofal llygaid cymunedau, bwriedir gosod dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol i gynnal asesiad bob tair blynedd o anghenion ieuchyd llygaid er mwyn gweld beth yw anghenion y cyhoedd o ran darpariaethau gofal llygaid mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Pan fydd asesiadau lleol o anghenion gofal llygaid yn pennu bod angen gwasanaethau clinigol ar lefel uwch, bydd y gwasanaethau uwch hyn yn cael eu darparu ar lefel y clwstwr fel y nodir uchod, ac fe fydd yna ddyletswydd i atgyfnerthu'r ddarpariaeth hon. Gyda'i gilydd, bydd asesiadau o anghenion a'r modd y darperir gwasanaethau ar sail y clwstwr yn sicrhau y bydd anghenion y boblogaeth leol yn cael eu hystyried yn llwyr, ac y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu ar sail yr anghenion hynny.

Cwestiwn 07: A ydych yn cytuno y byddai'n fuddiol i Fyrddau Iechyd Lleol gynnal asesiad bob tair blynedd o anghenion ieuchyd llygaid er mwyn gweld beth yw anghenion penodol eu cymunedau, gan roi dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol i wneud hyn er mwyn atgyfnerthu'r ddarpariaeth?

- **Rhestr Offthalmig**

O dan y trefniadau presennol, mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol baratoi a chyhoeddi dwy restr yn ymwneud ag unigolion ac endidau corfforaethol sy'n gysylltiedig â darparu profion golwg y GIG. Caiff contractwyr (sef y rhai sy'n llunio trefniadau gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu gwasanaethau yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol) eu cofrestru ar y rhestr offthalmig, a chaiff y rhai sy'n cynorthwyo contractwyr (h.y. ymarferwyr unigol sy'n mynd i'r afael â gwasanaethau clinigol) eu cofrestru ar y rhestr atodol. Yn y pen draw, nod y ddwy restr yw ei gwneud yn bosibl i oruchwylio darpariaethau offthalmig fel y gellir diogelu'r cyhoedd. Fodd bynnag, ceir goblygiadau gweinyddol ymarferol i fyrddau ieuchyd ac ymarferwyr offthalmig – goblygiadau a all fod yn feichus ac yn drafferthus.

Er mwyn lleihau biwrocratiaeth, cynigir y dylai Byrddau Iechyd Lleol baratoi un rhestr yn unig, gan hollti'r rhestr honno yn ddwy ran – un rhan ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu gwasanaethau offthalmig, a'r rhan arall ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu cymeradwyo i gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau offthalmig. Bydd y rheoliadau'n cydgrynhoi ac yn disodli'r trefniadau deddfwriaethol presennol, lle mae'n ofynnol llunio dwy restr.

Cynigiwn y dylai Byrddau Iechyd Lleol hefyd lunio rhestr weinyddol gyfun o'r holl ymarferwyr unigol sydd wedi'u cofrestru ar eu rhestr offthalmig ac sy'n darparu

gwasanaethau offthalmig y GIG, fel y gellir sicrhau mwy o eglurder ac fel y gellir gwella gwaith sy'n ymwneud â modelu'r gweithlu.

Cwestiwn 08: A ydych yn cytuno â'r syniad o gyflwyno un Rhestr Offthalmig ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol, er mwyn symleiddio'r drefn?

Cwestiwn 09: A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai pob Bwrdd Iechyd Lleol hefyd lunio rhestr weinyddol gyfun o'r holl ymarferwyr unigol sydd wedi'u cofrestru ar eu rhestr offthalmig ac sy'n darparu gwasanaethau offthalmig y GIG?

- **Optometryddion dan hyfforddiant**

At ddiben y cynnig hwn, y sawl sydd wedi cwblhau eu cwrs gradd mewn optometreg mewn sefydliad addysg uwch cydnabyddedig fel y cymeradwywyd gan y Cyngor Optegol Cyffredinol yw optometryddion dan hyfforddiant. Pan fyddant yn cwblhau'r cwrs gradd, rhaid iddynt gofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol fel optometryddion dan hyfforddiant a bydd pob unigolyn yn cael cyfeirnod optometrydd dan hyfforddiant. Rhaid iddynt gwblhau "Cynllun Cofrestru" Coleg yr Optometryddion er mwyn meithrin sgiliau a gwybodaeth yn y gweithle.

Mae optometryddion dan hyfforddiant, ar y Cynllun Cofrestru, yn cael eu cyflogi gan contractiwr sydd ar y rhestr offthalmig gydol eu blwyddyn cyn-gofrestru. Blwyddyn ar gyfer magu profiad proffesiynol cyn cael eu cofrestru yn optometryddion cofrestredig sydd wedi cymhwyso'n llawn yw'r flwyddyn cyn-gofrestru. Yn ystod y flwyddyn honno, byddant yn gweithio fel optometryddion dan hyfforddiant sy'n gweithredu dan oruchwyliaeth ond sy'n ymgymryd â dyletswyddau optometryddion cofrestredig.

Ar hyn o bryd, er bod gofyn i optometryddion dan hyfforddiant gofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol, nid oes raid iddynt wneud cais i'w cynnwys ar y rhestr offthalmig atodol. O'r herwydd, nid oes gan fyrddau iechyd unrhyw oruchwyliaeth na threfniadau llywodraethu priodol ar waith ar gyfer optometryddion dan hyfforddiant tra byddant yn ymgymryd â'r gwaith hwn.

Yn y dyfodol, rydym yn cynnig cynnwys optometryddion dan hyfforddiant sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol, ar y rhestr offthalmig atodol, er mwyn sicrhau bod trefniadau goruchwyllo a llywodraethu priodol ar waith. O ganlyniad, bydd angen cynnwys optometryddion dan hyfforddiant ar restr atodol bwrdd iechyd er mwyn iddynt ymgymryd â'u blwyddyn cyn-cofrestru.

Cwestiwn 10: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gynnwys optometryddion dan hyfforddiant sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol, ar y rhestr offthalmig atodol, i sicrhau bod trefniadau goruchwyllo a llywodraethu priodol ar waith?

- **Optegwyr cyflenwi**

Er mwyn rhoi mwy o eglurder ac i fodelu'r gweithlu, cynigir y dylai fod yn ofynnol i fyrddau iechyd lunio a chynnal rhestr weinyddol o'r optegwyr cyflenwi sy'n cael eu cyflogi neu eu defnyddio gan contractwyr sy'n darparu gwasanaethau'r GIG yn eu hardal.

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno â'r cynnig i Fyrddau Iechyd Lleol Iunio rhestr weinyddol o'r holl optegwyr cyflenwi sy'n darparu gwasanaethau'r GIG yn eu hardal?

- **Oriau clinigol craidd**

Cynigir y dylai fod yn ofynnol i gontractwyr y GIG, o dan y telerau gwasanaeth, gytuno ar oriau craidd ar gyfer gwasanaethau clinigol, er mwyn sicrhau mynediad teg. Dyma'r oriau pan fydd ystod lawn o wasanaethau lefel 1 a 2 ar gael. Bydd modd i'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r contractwr gytuno ar yr oriau hyn, a byddant yn cael eu hysbysebu ymhlith y cyhoedd er mwyn codi ymwybyddiaeth yn eu cylch. Mae'r trefniant hwn yn wahanol i'r trefniant presennol lle gall practisau benderfynu pa lefel o gymorth clinigol craidd a gynigir yn ystod eu horiau agor. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd cleifion â phroblemau llygaid aciwt yn cael eu gwrthod os na all y practis gynnig cymorth clinigol yn ystod yr oriau agor a bennir. Mae'r cynnig hwn yn cydweddu ag Ymrwymiad *Rhaglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru, sef darparu gwell mynediad at weithwyr iechyd proffesiynol, oherwydd bydd cleifion yn gwybod ble a phryd y gallant gael gafael ar wasanaethau clinigol craidd priodol yn eu hardaloedd lleol, yn cynnwys gwasanaethau ar gyfer cyflyrau aciwt.

Yn benodol, cynigir mai'r unig adeg y gall Contractwr wrthod darparu gwasanaethau o dan y Contract i unigolyn cymwys yw pan fo ganddo reswm rhesymol dros wneud hynny, ac ni all y rheswm hwnnw ymwneud ag oed neu gyflwr offthalmig unigolyn nac unrhyw gyflwr meddygol cysylltiedig.

Ymhellach, pe bai'r contractwr yn gwrthod darparu gwasanaethau am unrhyw reswm ac eithrio ei fodloni ei hun nad yw'r unigolyn yn cyrraedd y meini prawf cymhwysra ar gyfer prawf golwg neu archwiliadau llygaid, rhaid iddo gadw cofnod o'r ffaith ei fod wedi gwrthod yr unigolyn, gan nodi pam y'i gwrthododd. Dylai sicrhau bod y cofnod hwn ar gael i'r Bwrdd Iechyd Lleol pe gofynnid amdano.

Mae hyn yn ychwanegol at y mesur diogelu a gynhwysir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 sy'n pennu bod gwahaniaethu neu driniaeth annheg ar sail nodweddiol personol arbennig, megis oedran, yn erbyn y gyfraith ym mhob achos fwy neu lai.

Cwestiwn 12: A ydych yn cytuno y dylai pob contractiwr / optegydd a ariennir gan y GIG gynnig oriau clinigol craidd fel y cytunir rhwng y contractiwr a'i Fwrdd Iechyd Lleol er mwyn sicrhau mynediad addas i gleifion?

- **Cymorth Symudol i Gleifion Cymwys**

Ar hyn o bryd, caiff gwasanaethau symudol y GIG eu cyfyngu i ddarparu profion golwg, a dim ond mewn nifer cyfyngedig o leoliadau y gellir cynnig gwasanaethau o'r fath, megis canolfannau dydd, canolfannau preswyl neu gartrefi cleifion pan na all y claf adael ei gartref heb gwmni oherwydd anabledd neu salwch corfforol neu feddyliol. Ymhellach, mae'n ofynnol i gontractwyr roi rhybudd i'r Bwrdd Iechyd Lleol ynglŷn â'u bwriad i ddarparu gwasanaethau symudol i gleifion yn ardal y bwrdd iechyd.

Cynigir y dylid ei gwneud yn bosibl i ddarparu gwasanaethau lefel 1 a 2 trwy gyfrwng gwasanaethau symudol. Bydd hyn yn sicrhau bod ymarfer o safon sylfaenol ar gael i gleifion sy'n gymwys i gael gwasanaethau symudol yng Nghymru, gan sicrhau bod yr

holl ymarferwyr sy'n darparu'r gwasanaeth yn cynnig gwasanaethau teg i gleifion, ni waeth be fo'u lleoliad.

Cynigiwn ymestyn darpariaeth gwasanaethau symudol i gynnwys ystod ehangach o gleifion a fyddai'n cael anhawster cael gafael ar wasanaethau lefel 1 a 2 mewn "safle cofrestredig" (hy y lleoliad lle y byddai'r ymarferydd yn darparu gwasanaethau fel rheol, practis optegydd fel arfer) a thrwy ei gwneud yn bosibl i wasanaethau symudol gael eu darparu mewn lle nad yw'n "safle cofrestredig". Byddai hyn yn golygu, er enghraifft, fod modd darparu gwasanaethau symudol i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Arbennig yng Nghymru yn yr ysgol honno.

Er mwyn sicrhau y bydd modd i gleifion gael mynediad at yr holl wasanaethau mewn modd amserol, bwriadwn gael gwared â'r gofynion rhybudd ymlaen llaw ar gyfer gwasanaethau symudol i gleifion cymwys. Fodd bynnag, bydd yn parhau i fod yn ofynnol i gontractiwr sydd am ddarparu gwasanaethau symudol gadarnhau gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol ei fod yn dymuno gwneud hynny wrth wneud cais i gael ei gynnwys ar ei restr offthalmig.

Cwestiwn 13: A ydych yn cytuno â'n cynnig i gael gwared â'r gofynion rhybudd ymlaen llaw y mae'n rhaid i gontractwyr eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol cyn iddynt ymgymryd â gwasanaethau symudol?

Cwestiwn 14: A ydych yn cytuno â'n cynnig i ymestyn ymhellach y modd y darperir gwasanaethau gofal llygaid symudol i gleifion cymwys na allant gael gofal mewn practis optometrig?

- **Diogelwch y Cyhoedd a Diogelu**

Er mwyn gwella mwy fyth ar y mesurau diogelu sydd eisoes ar waith, lle mae'n ofynnol i ymarferwyr ddatgan euogfarnau troseddol, yn y dyfodol cynigir y bydd yn rhaid i ymarferwyr gwblhau archwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn y gellir eu cynnwys ar y rhestr offthalmig. Hefyd, er mwyn i ymarferwyr allu parhau i gael eu cynnwys ar y rhestr offthalmig, bydd yn ofynnol iddynt gofrestru gyda Gwasanaeth Diweddarau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a chynnal y cofrestriad hwnnw. Efallai y byddai methu â chydymffurfio â hyn yn arwain at dynnu ymarferwyr oddi ar y rhestr offthalmig, gan eu gwahardd rhag darparu gwasanaethau offthalmig a ariennir gan y GIG, oni bai y cytunant i wneud hynny yn ddiweddarach.

Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno â'r mesurau diogelu ychwanegol a gynigir? Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a ddylai ymarferwyr gofrestru gyda Gwasanaeth Diweddarau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chynnal y cofrestriad hwnnw yn flynyddol neu, fel arall, a ddylai ymarferwyr gael tystysgrif DBS newydd bob tair blynedd?

- **Gofyniad i hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol ynglŷn â newidiadau yn yr wybodaeth a gynhwysir ar y rhestr offthalmig**

Cynigiwn y dylid cydweddu'r cyfnodau rhybudd lle mae'n ofynnol i gontractwyr ac i unigolion sy'n cynorthwyo contractwyr hysbysu Byrddau Iechyd Lleol ynglŷn ag unrhyw newidiadau yn yr wybodaeth a gynhwysir mewn perthynas â nhw ar y rhestr offthalmig. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i gontractwyr hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol ynglŷn ag unrhyw newidiadau o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y newid. Bydd y cyfnod

hwn yn cael ei leihau i 14 diwrnod, er mwyn i'r gofynion sy'n berthnasol i gontractwyr gyd-fynd â'r gofynion sy'n berthnasol i unigolion ar y rhestr atodol.

- **Atgyfeiriadau electronig**

Er mwyn darparu mesurau diogelu ychwanegol i gleifion o ran cael mynediad amserol at wasanaethau gofal llygaid, bwriedir gosod gofyniad ar gontractwyr / optegwyr y GIG i ddefnyddio dulliau atgyfeirio electronig at ddibenion atgyfeirio, pan fo dulliau o'r fath ar gael. Y bwriad wrth wraidd hyn yw ceisio lleihau'r risg y bydd atgyfeiriadau o fath arall yn mynd ar goll (megis papur ffacs), ac mae'n cyd-fynd â'r prosiect ehangach i ddigideiddio gwasanaethau gofal sylfaenol er mwyn hwyluso llwybrau di-dor i bob claf ar draws gwasanaethau gofal iechyd.

Cwestiwn 16: A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid gosod gofyniad ar gontractwyr / optegwyr y GIG i ddefnyddio dulliau atgyfeirio electronig pan fo trefniadau o'r fath i'w cael, er mwyn sicrhau mynediad amserol at wasanaethau gofal llygaid?

- **Ansawdd Optometreg**

Er mwyn gwella mwy fyth ar y trefniadau llywodraethu, cynigiwn gyflwyno safonau Gwella Ansawdd ffurfiol ar gyfer Optometreg yng Nghymru. Ar hyn o bryd, ni cheir unrhyw safonau Gwella Ansawdd ffurfiol na thempledi y dylid cadw atynt ar gyfer Optometreg yng Nghymru. Mae angen systemau gwella ansawdd neu drefniadau llywodraethu cadarn fel y gellir mesur a sicrhau canlyniadau o'r radd flaenaf i gleifion yng Nghymru.

Y Cyngor Optegol Cyffredinol yw rheoleiddiwr statudol y proffesiwn optegol yn y DU. Pennir ei bwerau yn Neddf Optegwyr 1989.

Dyma ein bwriad ar gyfer y dyfodol:

- a. Bydd pob contractwr yn llenwi'r templed llywodraethu Ansawdd Optometreg bob blwyddyn fan leiaf.
- b. Byddwn yn tynnu sylw holl dîm y contractwr optometreg at y fethodoleg gwella ansawdd trwy ofyn i aelodau'r tîm gwblhau pecyn e-ddysgu lefel efydd mewn Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd. Bydd hyn yn arwain at wella'u galluogrwydd yn y maes. Bydd pob rheolwr practis a phob gweithiwr sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau offthalmig y GIG yng Nghymru yn cwblhau pecyn e-ddysgu lefel efydd yn ymwneud â Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd mewn Optometreg. Rhaid cynnwys unrhyw un sy'n gweithio un diwrnod yr wythnos fan leiaf yn y practis, yn cynnwys staff clinigol ac anghlinigol. Unwaith yn unig y bydd angen gwneud hyn ar gyfer pob aelod o staff h.y. ni fydd yn rhaid ei ailadrodd bob blwyddyn. Bydd optegwyr cyflenwi ac optometryddion yn cael mynediad at hyfforddiant mewn gwella ansawdd fel rhan o'u taliad DPP cyflawnydd.
- c. Bydd pob contractiwr yn cwblhau offeryn System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS) lle nodir gweithlu eu practis. Cynigir y dylid cynnwys manylion optometryddion, optegwyr cyflenwi, rheolwyr practis a staff proffesiynol sy'n gweithio ym mhob practis.

- d. Bydd dyletswydd yn cael ei rhoi ar y contractwr i gymryd rhan mewn, a chwblhau, tri archwiliad bob blwyddyn (archwiliadau clinigol ac anghlinigol). Bydd Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol yn cytuno ar gynnwys yr archwiliadau.

Cwestiwn 17: A ydych yn cytuno â'r cynigion uchod i wella trefniadau llywodraethu a safonau ansawdd ar gyfer Optometreg yng Nghymru? Os ydych o'r farn bod hyn yn rhesymol ac yn gymesur, a wnewch chi ymhelaethu. Mae croeso ichi gyflwyno sylwadau ar bob eitem yn unigol (a-d) neu gallwch roi ymateb cyffredinol ar draws yr holl gynigion.

NEWIDIADAU ARFAETHEDIG YN YMWNEUD Â PHWY FYDD YN GYMWYS I GAEL TALEBAU AR GYFER TECLYNNAU OPTEGOL, YNGHYD Â NEWIDIADAU ARFAETHEDIG YNG NGWERTH Y TALEBAU HYN

O dan adran 129 o Ddeddf 2006, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu taliadau ar gyfer helpu unigolion cymwys sy'n perthyn i categorïau arbennig gyda chostau profion golwg a theclynnau optegol (sbectolau neu lensys cyffwrdd). Mae cymorth ar gael i gleifion cymwys tuag at gost teclynnau optegol trwy gyfrwng talebau optegol y gallant eu cyflwyno i unrhyw gyflenwr o'u dewis. Gellir defnyddio'r daleb i dalu'n llwyr am y sbectol neu'r lensys cyffwrdd, neu i gyfrannu at y gost, gan ddibynnu ar y swm y bydd y cyflenwr yn ei godi am y teclyn optegol perthnasol ac ar werth y daleb. Yna, gall ymarferwyr offthalmig / cyflenwyr teclynnau optegol adennill gwerth y daleb optegol gan GIG Cymru.

Ond mae asesiad o'r system dalebau gyfredol wedi tynnu sylw at y ffaith bod cleifion ag anghenion presgripsiwn uwch yn wynebu annhegwch, gan nad yw'r talebau cyfredol a roddir i gleifion ar ystodau presgripsiwn uwch yn ddigon i dalu am gost y teclyn optegol. O'r herwydd, yn aml gofynnir i'r cleifion sydd yn yr angen mwyaf, yn ariannol ac yn glinigol, gyfrannu'n sylweddol at gost eu sbectol, er eu bod yn gymwys i gael cymorth ariannol.

Cynigiwn, felly, y dylid diweddarau gwerthoedd y talebau er mwyn sicrhau y byddant yn adlewyrchu cost y teclyn optegol yn well ar draws pob ystod presgripsiwn.

Ymhellach, cynigiwn y dylid cynnwys dyletswydd newydd yn y telerau gwasanaeth sy'n berthnasol i gontractwyr. Byddai'r ddyletswydd hon yn mynnu bod ymarferwyr sy'n darparu profion golwg y GIG, ac sy'n gwerthu sbectolau, yn sicrhau bod pâr sylfaenol o sbectolau ar gael i bobl sy'n gymwys i gael taleb tuag at gostau sbectolau. Rhaid i'r pâr sylfaenol hwn o sbectolau fodloni manyleb presgripsiwn yr unigolyn a rhaid i werth y sbectol fod o fewn gwerth y daleb berthnasol y mae gan yr unigolyn hawl iddi. Bydd hyn yn sicrhau bod modd i unigolion cymwys gael teclyn sylfaenol heb orfod wynebu unrhyw gost ychwanegol, gan sicrhau mynediad teg ar draws pob ystod presgripsiwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi coladu a dadansoddi'r holl drefniadau ariannol cyfredol, yn cynnwys gwaith clinigol a thalebau optegol, er mwyn sicrhau bod yr holl newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau optometreg yn addas i'r diben. Pennwyd gwerthoedd y talebau optegol ar sail 'y gost a'r elw', sy'n cynnwys dadansoddiad o'r costau masnach gogyfer cyflenwi'r teclyn optegol ynghyd â'r ffi

ddosbarthu ychwanegol. Dylai gwerth y talebau, felly, o leiaf dalu'r gost debygol i bractis optometrig o ddarparu teclyn sylfaenol ar draws talebau o bob gwerth ac ar draws yr holl ystodau presgripsiwn. O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn rhesymol ac yn gymesur.

Cynhwysir dadansoddiad o werthoedd newydd y talebau a'r ad-daliadau clinigol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Asesiad Effaith Integredig sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn. Y bwriad allweddol yw sicrhau y bydd modd i gleifion cymwys barhau i allu cael mynediad teg ar draws pob ystod presgripsiwn (cryfder lensys) ynghyd â symud tuag at fodel lle caiff optometryddion dâl mwy priodol am eu gwaith clinigol gan leihau'r angen i werthu teclynnau er mwyn ariannu costau gwasanaethau clinigol, a chynyddu'r gallu ar gyfer gwaith clinigol.

Trafodwyd y newidiadau hyn â'r proffesiwn yn ddiweddar a chytunwyd arnynt. Bydd ffioedd clinigol a gwerthoedd talebau y GIG yn destun trafodaethau teirochrog blynyddol rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac Optometreg Cymru; felly, bydd modd parhau i adolygu gwerthoedd y talebau. Bydd hyn yn sicrhau bod practisau optometrig yn cael tâl priodol a theg am y gwaith a wneir.

Cwestiwn 18: A ydych yn cytuno y dylai cleifion cymwys fod â'r hawl i gael teclynnau optegol yn rhad ac am ddim ar draws pob ystod presgripsiwn ac y dylid rhoi dyletswydd ar gontractwyr i gefnogi'r ddarpariaeth rad ac am ddim hon?

- **Meini Prawf Cymhwystra**

Fel rhan o'r cynigion newydd, bwriadwn newid y meini prawf cymhwystra er mwyn sicrhau bod carcharorion sydd ar absenoldeb awdurdodedig yn gymwys i gael talebau mewn rhai amgylchiadau, ac er mwyn sicrhau bod unigolion o dan 18 oed sydd yng ngofal awdurdodau lleol yn gymwys i gael talebau optegol o bob math.

- **Carcharorion**

Yn y cyd-destun hwn, mae "carcharor" yn golygu unigolyn a gedwir mewn carchar, gan gynnwys sefydliad troseddwyf ifanc, ond sydd, ar yr adeg y bydd yn cael y gwasanaeth offthalmig sylfaenol, ar absenoldeb awdurdodedig o'r carchar hwnnw. Mae'n bosibl y bydd carcharor yn cael caniatâd i adael y carchar am gyfnodau byr tua diwedd ei ddedfryd, ac mae sicrhau bod carcharorion sydd ar absenoldeb awdurdodedig yn gymwys i gael gwasanaethau o'r fath yn ffordd o ddechrau eu hintegreiddio â gweddill y gymdeithas agored, gan ymestyn a democrateiddio darpariaethau y mae gan y cyhoedd ehangach hawl i'w cael.

Ar hyn o bryd yng Nghymru, ni cheir unrhyw feini prawf cymhwystra penodol ar gyfer carcharorion (ar absenoldeb arbennig) mewn perthynas â phrofion golwg y GIG, talebau profion golwg, talebau ar gyfer cyflenwi teclynnau optegol, na thalebau ar gyfer trwsio / adnewyddu teclynnau optegol.

Cynigir y dylid gwneud rhai carcharorion (sef y rhai a nodir uchod a'r rhai ar absenoldeb awdurdodedig) yn gymwys ar gyfer yr hawliau hyn. Sylwer: er mwyn i'r carcharor (ar absenoldeb awdurdodedig) allu cael taleb ar gyfer trwsio neu adnewyddu teclyn optegol, bydd yn rhaid iddo fodloni'r meini prawf cymhwystra a bennir ar gyfer pob unigolyn dros 16 oed, a bydd yn rhaid iddo fodloni'r ddau amod a

ganlyn yn llwyr cyn y rhoddir taleb iddo tuag at y gost o drwsio neu adnewyddu teclyn optegol:

- byddai ganddo hawl i gael taleb y GIG ar gyfer sbectolau neu lensys cyffwrdd.
- salwch neu anabledd a oedd wrth wraidd y golled neu'r difrod.

Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno â'r cynnig uchod i ymestyn y meini prawf cymhwysra er mwyn cynnwys rhai carcharorion ar absenoldeb awdurdodedig?

• Unigolion o dan 18 oed sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol

Ar hyn o bryd, ceir gwahaniaethau o ran y cymorth a gynigir i unigolion o dan 18 oed sy'n gadael gofal neu sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol. Mae plant o dan 16 oed (yn cynnwys rhai mewn gofal) yn gymwys i gael prawf golwg y GIG a thaleb ar gyfer cyflenwi, trwsio ac adnewyddu teclyn optegol. Mae unigolion 16/17 oed sy'n gadael gofal, neu y mae'r Awdurdod Lleol yn cyfrannu at eu cynnal, yn gymwys i gael prawf golwg y GIG a thaleb ar gyfer cyflenwi teclyn. Fodd bynnag, nid ydynt yn gymwys i gael taleb ar gyfer trwsio neu adnewyddu teclyn optegol.

Bwriadwn sicrhau bod unigolion o dan 18 oed sy'n gadael gofal neu sy'n dal i fod mewn gofal yn gymwys i gael yr holl hawliau mewn perthynas â gofal llygaid, yn cynnwys taleb ar gyfer trwsio neu adnewyddu teclyn optegol (yn ychwanegol at y darpariaethau maent yn gymwys i'w cael eisoes o dan y ddeddfwriaeth a'r trefniadau presennol).

Cwestiwn 20: A ydych yn cytuno â'r cynnig uchod i ymestyn y meini prawf cymhwysra ar gyfer unigolion o dan 18 oed sy'n gadael gofal neu sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol?

Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Asesiad Effaith Integredig

Fel y nodwyd eisoes, rydym wedi llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Asesiad Effaith Integredig. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn asesu'r costau, y manteision a'r risgiau tebygol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig yn y polisi. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn ystyried y prif effeithiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r polisi.

Mae dadansoddiad o'r manteision yn dangos y bydd y newidiadau arfaethedig yn paratoi'r ffordd ar gyfer darparu dull mwy modern ac ystwyth o ddarparu Gwasanaethau Offthalmig yng Nghymru, ynghyd â dull a fydd yn canolbwyntio ar y cleifion. Mae gwasanaethau Optometreg Gofal Sylfaenol yng Nghymru yn gymwys iawn i wynebu'r heriau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd llygaid yn sgil yr ymdrechion a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf i uwchsgilio'r gweithlu mewn lleoliadau gofal sylfaenol.

Mae'r llwybr hwn yn ei gyfanrwydd yn addas iawn ar gyfer gofal llygaid yng Nghymru lle gellir aildosbarthu'r galw gyda gweithlu a uwchsgiliwyd. Rhagwelir y bydd y llwybrau gofal llygaid newydd a gyflwynir yn lleihau'r nifer o atgyfeiriadau a wneir at Wasanaethau Llygaid mewn Ysbytai (traean o leihad), gan arwain at arbed amser gofal iechyd ac arbed costau gofal eilaidd. Fel y nodwyd eisoes, rydym wedi trafod

effeithiau ariannol ac ymarferol ein cynigion â'r proffesiwn, a chytuno arnynt, a bydd trafodaethau teirochrog blynyddol yn cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac Optometreg Cymru.

Cwestiwn 21: A ydych o'r farn bod yna fanteision neu anfanteision eraill i'w cael, na sonnir amdanynt yn yr ymgynghoriad? Esboniwch beth yw'r rhain a chyflwynwch dystiolaeth i ategu eich ymateb.

Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

- **Y Broses Ymgynghori**

Caiff ymgynghoriad wyth wythnos ei lansio er mwyn rhoi cyfle i gyflwyno sylwadau ar y cynigion hyn.

Byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r holl ymatebion a dderbynnir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn a bydd crynodeb o'r ymatebion a dderbynnir yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

- **Y grwpiau o dan sylw**

Bydd y cynigion yn berthnasol i unigolion sy'n darparu neu sy'n bwriadu darparu gwasanaethau Offthalmig y GIG yng Nghymru, ac i'r rhai sy'n cynorthwyo neu sy'n bwriadu cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau o'r fath, yn ogystal â Byrddau Iechyd Lleol a'r cyhoedd.

Rydym yn croesawu eich syniadau a byddem yn eich annog i ymateb i'r cwestiynau isod.

Ffurflen ar gyfer Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

Cyfeiriad e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 01: A ydych yn cytuno y dylai practisau optometrig orfod ymgorffori cyngor sy'n ymwneud ag atal a llesiant, yn ogystal â chynlluniau rheoli unigol i gleifion a chngor ynglŷn â hunanofal, fel rhan o'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnis wrth ddarparu profion golwg y GIG?

Sylwadau:

Cwestiwn 02: A ydych yn cytuno y dylai pob practis optometrig yng Nghymru gynnis archwiliad iechyd llygaid i gleifion sydd angen sylw ar frys neu i gleifion sy'n wynebu risg uwch o ddatblygu clefyd llygaid?

Sylwadau:

Cwestiwn 03: A ydych yn cytuno y dylai'r holl ymarferwyr sy'n ymarfer yng Nghymru feddu ar achrediad a hyfforddiant sylfaenol er mwyn iddynt allu darparu ystod lawn o wasanaethau craidd, yn cynnwys archwiliadau llygaid?

Sylwadau:

Cwestiwn 04: A ydych yn cytuno â'r gofyniad i gael y gwasanaethau arfaethedig hyn sydd dan gyfarwyddyd cenedlaethol oddi mewn i ofal sylfaenol, er mwyn sicrhau mynediad cyson at wasanaethau gofal llygaid ledled Cymru?

Sylwadau:

Cwestiwn 05: A ydych yn cytuno y dylai practis nad yw'n cynnis gwasanaethau clinigol lefel uwch gael ei gymell gan y gyfraith i atgyfeirio cleifion at bractis gerllaw sy'n cynnis y gwasanaethau clinigol angenrheidiol, er mwyn diwallu anghenion cleifion?

Sylwadau:

Cwestiwn 06: A ydych yn cytuno y dylid rhoi dyletswydd ar bractisau optometrig i gydweithredu er mwyn sicrhau y gellir ymdrin ag anghenion iechyd llygaid ardal y clwstwr oddi mewn i glystyrau gofal sylfaenol?

Sylwadau:

Cwestiwn 07: A ydych yn cytuno y byddai'n fuddiol i Fyrddau Iechyd Lleol gynnal asesiad bob tair blynedd o anghenion iechyd llygaid er mwyn gweld beth yw anghenion penodol eu cymunedau, gan roi dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol i wneud hyn er mwyn atgyfnerthu'r ddarpariaeth?

Sylwadau:

Cwestiwn 08: A ydych yn cytuno â'r syniad o gyflwyno un Rhestr Offthalmig ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol, er mwyn symleiddio'r drefn?

Sylwadau:

Cwestiwn 09: A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai pob Bwrdd Iechyd Lleol hefyd lunio rhestr weinyddol gyfun o'r holl ymarferwyr unigol sydd wedi'u cofrestru ar eu rhestr offthalmig ac sy'n darparu gwasanaethau offthalmig y GIG?

Sylwadau:

Cwestiwn 10: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gynnwys optometryddion dan hyfforddiant sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol, ar y rhestr offthalmig atodol, i sicrhau bod trefniadau goruchwylio a llywodraethu priodol ar waith?

Sylwadau:

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno â'r cynnig i Fyrddau Iechyd Lleol lunio rhestr weinyddol o'r holl optegwyr cyflenwi sy'n darparu gwasanaethau'r GIG yn eu hardal?

Sylwadau:

Cwestiwn 12: A ydych yn cytuno y dylai pob contractiwr / optegydd a ariennir gan y GIG gynnig oriau clinigol craidd fel y cytunir rhwng y contractiwr a'i Fwrdd Iechyd Lleol er mwyn sicrhau mynediad addas i gleifion?

Sylwadau:

Cwestiwn 13: A ydych yn cytuno â'n cynnig i gael gwared â'r gofynion rhybudd ymlaen llaw y mae'n rhaid i gontractwyr eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol cyn iddynt ymgymryd â gwasanaethau symudol?

Sylwadau:

Cwestiwn 14: A ydych yn cytuno â'n cynnig i ymestyn ymhellach y modd y darperir gwasanaethau gofal llygaid symudol i gleifion cymwys na allant gael gofal mewn practis optometrig?

Sylwadau:

Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno â'r mesur diogelu ychwanegol a gynigir? Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a ddylai ymarferwyr gofrestru gyda Gwasanaeth Diweddar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chynnal y cofrestriad hwnnw yn flynyddol neu, fel arall, a ddylai ymarferwyr gael tystysgrif DBS newydd bob tair blynedd?

Sylwadau:

Cwestiwn 16: A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid gosod gofyniad ar gontractwyr / optegwyr y GIG i ddefnyddio dulliau atgyfeirio electronig pan fo trefniadau o'r fath i'w cael, er mwyn sicrhau mynediad amserol at wasanaethau gofal llygaid?

Sylwadau:

Cwestiwn 17: A ydych yn cytuno â'r cynnig uchod i wella trefniadau llywodraethu a safonau ansawdd ar gyfer Optometreg yng Nghymru? Os ydych o'r farn bod hyn yn rhesymol ac yn gymesur, a wnewch chi ymhelaethu. Mae croeso ichi gyflwyno sylwadau ar bob eitem yn unigol (a-d ar dudalen 24) neu gallwch roi ymateb cyffredinol ar draws yr holl gynigion.

Sylwadau:

Cwestiwn 18: A ydych yn cytuno y dylai cleifion cymwys fod â'r hawl i gael teclynnau optegol yn rhad ac am ddim ar draws pob ystod presgripsiwn ac y dylid rhoi dyletswydd ar gontractwyr i gefnogi'r ddarpariaeth rad ac am ddim hon?

Sylwadau:

Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno â'r cynnig uchod i ymestyn y meini prawf cymhwysra er mwyn cynnwys rhai carcharorion ar absenoldeb awdurdodedig?

Sylwadau:

Cwestiwn 20: A ydych yn cytuno â'r cynnig uchod i ymestyn y meini prawf cymhwysra ar gyfer unigolion o dan 18 oed sy'n gadael gofal neu sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol?

Sylwadau:

Cwestiwn 21: A ydych o'r farn bod yna fanteision neu anfanteision eraill i'w cael, na sonnir amdanynt yn yr ymgynghoriad? Esboniwch beth yw'r rhain a chyflwynwch dystiolaeth i ategu eich ymateb.

Sylwadau:

Cwestiwn 22: Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu amgylchedd lle bydd pawb yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Hoffem glywed eich barn ynglŷn â'r effaith y gallai'r ddeddfwriaeth newydd ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich tyb chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau andwyol?

Sylwadau:

Cwestiwn 23: Esboniwch hefyd sut, yn eich tyb chi, y gellid llunio neu newid y ddeddfwriaeth arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau:

Cwestiwn 24: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Sylwadau:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi – ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: